



ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLE ECONOMAIDD

11eg Ebrill, 2025

TEITL: Cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Ystyried Cyfethol aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'w benodi ar yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Argymhell i'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd gyfethol Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (heb bleidlais) ar yr Is-bwyllgor i gefnogi ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.
- 2.2. Bod yr aelod isod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn berthnasol i faterion cynllunio strategol yn unig:
- Jonathan Cawley, Prif Weithredwr.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Ar Fawrth 21 cytunodd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd y bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor Cyd-Bwyllgor Corfforaethol y Gogledd, ynghyd a chynrychiolydd o bob un o'r cyrff hynny a gynrychiolwyd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gael ei benodi fel aelodau cyfethol di-bleidlais.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn defnyddio aelodaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Adlewyrchir hyn yn ei gyfansoddiad presennol gydag arweinwyr pob Cyngor cyfansoddol (Aelodau sy'n pleidleisio), ac aelodaeth gyfethol o'r sefydliadau addysgol a chynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (materion cynllunio), Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, a chynrychiolydd Cadeirydd o'r Bwrdd Cyngori Busnes. Mae hyn yn cynrychioli'r sefyllfa fel sy'n ofynnol yn Rheolau Sefydlog y Cyd-bwyllgor Corfforaethol – "Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, ynghyd â chynrychiolydd o bob un o'r cyrff canlynol a benodwyd fel aelodau cyfethol di-bleidlais".
- 4.2. Mae cynrychiolwyr pob corff partner wedi ymgymryd â rôl fel ymgynghorwyr i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hyd yn hyn. Mae cwblhau cytundeb cyd-ddewis yn rhagflaenydd statudol i ymgymryd ag aelodaeth o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar y telerau a nodir yn y

cytundeb cyfethol. Mae'r Aelodau cyfetholedig yn cael eu penodi am gyfnod o ddwy flynedd neu hyd nes iddynt sefyll i lawr o'u rôl gyflogedig neu ymddiswyddo, pa un bynnag yw'r lleiaf.

- 4.3. Mae Canllawiau Statudol yn annog cynnwys eraill i gefnogi cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Canllawiau'n amlinellu pwysigrwydd creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif ehangach o'i waith. Mae natur strategol gwaith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn rhoi cyfle iddo adnabod partneriaid a rhanddeiliaid allweddol y maent yn ystyried a fyddai o fudd i'w waith. Fodd bynnag, mae pwy sy'n cael ei gyfethol a sut yn fater i'r CBC ei benderfynu.
- 4.4. Drwy gyfethol Aelodau ar unrhyw Is-bwyllgor, mae'r CBC yn cyfethol unigolyn fel Aelod o CBC y Gogledd ar y telerau hynny y mae'n eu pennu. Golyga hyn bod y person a gaiff ei gyfethol yn cael ei benodi'n Aelod i gefnogi swyddogaeth y CBC, yn hytrach na chynrychioli unrhyw sefydliad neu gyflogwr. Bydd telerau'r cyfethol yn cael eu nodi yn y cytundeb cyfethol a dim ond y swyddogaethau trafndiaeth hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor y byddant yn berthnasol iddynt.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”